

2006 Rhif 68

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL 1977**

**Cyfarwyddiadau Cyfarwyddiadau i
Gyrff y GIG ar Fesurau Gwrth-
dwyll (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2)
2006**

Wedi'u gwneud *16 Hydref 2006*

Yn dod i rym *17 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau'n gweithredu drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16BB(4), 17 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(1), drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau a ganlyn:

Cychwyn, dehongli a chymhwysu

1.—(1) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 17 Hydref 2006 ac fe'u rhoddir i gyrff y GIG yng Nghymru.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn –

(1) 1977 p.49. Mewnosodwyd adran 16BB(4) gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17) ac fe'i diwygiwyd gan adran 184 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43) a pharagraffau 7 a 10 o Atodlen 11 iddi. Amnewidiwyd adran 17 gan adran 12(1) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999") ac fe'i diwygiwyd gan adran 67(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001, a pharagraff 5(1) a (3) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 17 (ac eithrio mewn rhai achosion nad ydynt yn berthnasol i'r cyfarwyddiadau hyn), ac adran 126(4), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672 fel y'i diwygiwyd gan adran 66(4) a (5) o Ddeddf 1999.

ystyr “Cyfarwyddiadau 2005” yw Cyfarwyddiadau i Gyrff y GIG ar Fesurau Gwrth-dwyll 2005(1); ac ystyr “Cyfarwyddiadau 2006” yw Cyfarwyddiadau Cyfarwyddiadau i Gyrff y GIG ar Fesurau Gwrth-dwyll (Cymru) (Diwygio) 2006 a wnaed ar 22 Gorffennaf 2006.

Diwygio Cyfarwyddiadau 2005

2. Diwygir Cyfarwyddiadau 2005 fel a ganlyn.

3. Yng nghyfarwyddyd 3(5) diwygir y cyfeiriad at gyfarwyddyd 8(dd) yn gyfeiriad at gyfarwyddyd 7(dd).

4. Yng nghyfarwyddyd 6(2) diwygir y cyfeiriad at Adran Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch yr AGB y GIG yn gyfeiriad at LCFS(2).

5. Yng nghyfarwyddyd 7(1)(a) diwygir y cyfeiriad at gyfarwyddyd 7(1) yn gyfeiriad at gyfarwyddyd 6(1).

Diwygio Cyfarwyddiadau 2006

6. Diwygir Cyfarwyddiadau 2006 fel a ganlyn.

7. Yn nghyfarwyddyd 5 dileer y geiriau a'r rhif “6 (Cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Arbenigwr Gwrth-dwyll Lleol)”.

Llofnodwyd

Dyddiad

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

(1) Fel y'i diwygiwyd gan Cyfarwyddiadau i Gyrff y GIG ar Fesurau Gwrth-dwyll (Cymru) (Diwygio) 2006.
(2) Rhoddwyd y cyfeiriad at Adran Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch yr AGB y GIG yn lle'r llythrennau “CFSMS” gan Gyfarwyddiadau 2006.